**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION:**

**Dyddiad:** 12 Medi 2000
**Amser:** 10.30 am
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Michael German, Cadeirydd | (Democratiaid Rhyddfrydol) |
| Nick Bourne | (Ceidwadwyr) |
| Huw Lewis | (Llafur) |
| Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| John Marek | (Llafur) |
| Lynne Neagle | (Llafur) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Turnball | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Dylan Hughes | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |
| Andrew George | Clerc y Pwyllgor |
| Julie Owen | Dirprwy Glerc |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:**
Jocelyn Davies

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion yn codi: LEG-19-2000 (min)**
1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2000.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**

Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Rheoli'r Gymuned) (Cymru) 2000 (LC101)
2.1 Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn ymateb i'w lythyr dyddiedig 7 Mehefin oddi wrth Carwyn Jones, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig. Roedd y Pwyllgor wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cynulliad gan ei bod yn ymddangos fod amodau Adran 21 Deddf Offerynnau Statudol 1946 yn cael eu torri. Hefyd, ni chyflwynwyd y Gorchymyn i'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl ar ôl ei greu a golyga hyn fod Rheolau Sefydlog y Cynulliad ei hun wedi eu torri. Yn ei ymateb, dywedodd Mr Jones fod Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol wrthi'n ymdrin â'r mater trwy'r uned newydd a sefydlwyd er mwyn rheoli'r holl

agweddau trefniadol ar ddeddfwriaeth y Cynulliad. Yng ngoleuni ymateb Mr Jones, cytunodd y Pwyllgor i dynnu sylw arbennig y Cynulliad at y Gorchymyn hwn yn ei adroddiad.

Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000 (LC97)
2.2 Roedd y Cadeirydd hefyd wedi derbyn ymateb oddi wrth Sue Essex, Ysgrifennydd y Cynulliad dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth, i'w lythyr dyddiedig 2 Awst ynghylch y Rheoliadau hyn a arwyddwyd ar yr un diwrnod (5 Gorffennaf 2000) ag y daethant i rym. Roedd hyn yn golygu eu bod, yn dechnegol, yn ôl-weithredol ac y dylid, felly, adrodd arnynt dan Reol Sefydlog 11.5(iii). Yn ei hymateb awgrymodd Ms Essex y dylai Swyddfa'r Llywydd adolygu ei gweithdrefnau mewnol er mwyn sicrhau nad oes achos tebyg yn codi eto. Roedd y Cadeirydd wedi trefnu fod copi o lythyr Ms Essex yn cael ei anfon at y Llywydd ac y byddai'r pwyllgor yn cael clywed am unrhyw ymateb. Byddai'r Pwyllgor yn awr yn rhoi adroddiad i'r Cynulliad, gan dynnu ei sylw arbennig at y gorchymyn hwn.

Tynnu sylw arbennig y Cynulliad at ddeddfwriaeth a wnaed dan y weithdrefn frys
2.3 Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn ymateb y Dirprwy Lywydd i'w lythyr dyddiedig 19 Mehefin oedd yn gofyn pam nad oedd unrhyw weithdrefnau ffurfiol yn y Rheolau Sefydlog ar gyfer tynnu sylw arbennig y Cynulliad at ddeddfwriaeth a wnaed dan y weithdrefn frys ac, yn arbennig, pan fod yn rhaid adrodd ar ddeddfwriaeth o'r fath dan Reol Sefydlog 11.5. Roedd ymateb y Dirprwy Lywydd ar ran y pwyllgor busnes yn datgan na fyddai unrhyw ddiben i'r Cynulliad ystyried adroddiadau'r Pwyllgor Deddfau yn ffurfiol gan na allai'r Cynulliad gymryd unrhyw gamau i newid deddfwriaeth oedd wedi ei wneud yn barod. Yn lle hynny, tynnodd sylw at y cyfle i aelodau ddiddymu deddfwriaeth dan Reol Sefydlog 22.27. Nododd Mr Turnball y gallai deddfwriaeth gael ei gywiro gan orchymyn diwygio.

2.4 Wrth drafod, roedd yr aelodau'n teimlo nad oedd y Pwyllgor Busnes, o bosibl, wedi sylweddoli'n llawn yr egwyddor yr oedd y Pwyllgor yn ceisio'i danlinellu. Roedd yn bwysig fod Aelodau yn dod yn gwbl ymwybodol bod darn o ddeddfwriaeth a wnaed yn eu henw yn ddiffygiol er mwyn rhoi cyfle iddynt ystyried a ddylid cymryd unrhyw gamau pellach. Cytunodd y Pwyllgor y dylent ysgrifennu at y Dirprwy Lywydd eto er mwyn egluro eu pryderon.
**Gweithredu: Y Clerc.**

Ymweliad Pwyllgor Adolygu Rheoliadau De Cymru Newydd ar 13 Gorffennaf.
2.5 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau hynny oedd wedi helpu i drefnu'r ymweliad. Diolchodd hefyd i Gymdeithas y Gyfraith am lywyddu'r cinio. Roedd aelodau De Cymru Newydd wedi cysylltu â'r Cynulliad i ddiolch iddynt am eu lletygarwch "neilltuol". Yna, rhoddodd John Marek fraslun o'r ymweliad. Roedd pwerau Pwyllgor De Cymru Newydd yn llawer ehangach na rhai pwyllgor Deddfau'r Cynulliad. Roedd De Cymru Newydd yn cynnal gwerthusiadau rheoleiddiol o fusnesau ac effeithiau rheoliadau ar fusnesau; mae ganddo ddiddordeb yn y perygl o amharu ar hawliau a rhyddid personol; yn ystyried a fyddai'n fwy addas i fater gael ei ddeddfu drwy'r senedd; ac yn cadw golwg am unrhyw oedi digyfiawnhad mewn cyhoeddi. Roedd yn teimlo mai'r gwahaniaeth mwyaf diddorol oedd amod "machlud haul" De Cymru Newydd.

Roedd is-ddeddfwriaeth yn cael ei ddiddymu’n awtomatig ar ôl pum mlynedd os nad oedd yn cael ei ail-wneud. Golygai hyn fod yn rhaid i’r Weithrediaeth edrych ar ddeddf cyn y dyddiad y byddai’n dod i ben er mwyn ystyried a oedd ei hangen bellach neu a oedd angen ymgorffori gwelliannau yn y ddeddfwriaeth newydd. Fe wnaeth atgoffa aelodau hefyd eu bod wedi derbyn gwahoddiad llafar i ymweld â’r "Gynhadledd Ryngwladol ar Reoli Rheoliadau, Diwygio ac Archwilio Deddfwriaeth" a gynhelir yn Sydney y flwyddyn nesaf. Teimlwyd y byddai’n ddefnyddiol pe byddai rhai aelodau’n mynychu’r gynhadledd ond byddai hyn yn cael ei ystyried ymhellach ar ôl iddynt dderbyn gwahoddiad ysgrifenedig. Roedd y pwyllgor yn teimlo fod yr ymweliad wedi bod yn un defnyddiol iawn a’i bod yn bwysig parhau i ddatblygu cysylltiadau o’r fath.

<u>Ymweliad â Phwyllgor Is-ddeddfwriaeth Senedd yr Alban</u>
2.6 Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Dai Lloyd roi adroddiad byr ar yr ymweliad hwn. Dywedodd fod Pwyllgor yr Alban yn cyfarfod yn breifat i ddechrau er mwyn trafod yr eitemau oedd ar yr agenda ac yna’n cynnal cyfarfod cyhoeddus ar ôl hynny er mwyn trafod yr un eitemau. Teimlwyd nad dyma’r defnydd gorau o adnoddau. Er hynny, roedd pwerau ehangach Senedd yr Alban yn cynnig mwy o hyblygrwydd iddynt ac yn ei gwneud yn haws deddfu. Roedd yr aelodau’n teimlo nad oedd llawer o wersi ymarferol i’w dysgu gan Bwyllgor yr Alban ar wahân i gynnwys adran "Ymatebion y Weithrediaeth" yn yr agenda er mwyn ymdrin ag ymatebion i lythyrau’r Cadeirydd. Cytunwyd ar hyn.

**Eitem 3: Deddfwriaeth y Cynulliad i’w Hystyried**

**LC118: Rheoliadau Adnabod Defaid a Geifr (Cymru) 2000**
3.1 Cyflwynodd Mr Hughes ei adroddiad i’r pwyllgor. Gwnaed y Rheoliadau dan y weithdrefn frys.

3.2 Ar ôl ystyried adroddiad y Cynghorydd Cyfreithiol cytunodd y Pwyllgor fod yna faterion y dylid eu codi dan Reol Sefydlog 11:5(iv). Yn gyntaf, gallai’r Rheoliadau fod wedi cyfeirio at "1 Ionawr 2001" yn unig, yn hytrach nag ychwanegu diffiniad o’r "dyddiad perthnasol". Mae’r diffiniad hwn wedi achosi dryswch wedi hynny yn Rheoliad 7(4). Hefyd, roedd Rheoliad 14(1) yn nodi’r amgylchiadau pan ddylid tynnu tagiau clust a gosod tagiau clustiau neu datws newydd. Roedd paragraffau 14(2) & 14(3) yn nodi sut y dylid gosod tagiau clustiau newydd. Er hynny, mae paragraff (4) yn nodi nad yw paragraffau (2) a (3) yn berthnasol i anifeiliaid mewn marchnad neu ladd-dy. Byddai’n ymddangos, felly, fod y gallu i roi tag neu datw newydd yn cael ei gadw mewn marchnad neu ladd-dy ond nid yw’r rheoliadau yn dweud sut y dylid gwneud hynny.

3.3 Cytunodd yr aelodau i ddilyn y weithdrefn a welir yn Rheol Sefydlog 11.4. Mae’n nodi y dylai’r Cadeirydd, cyn adrodd i’r Cynulliad y dylai dalu sylw arbennig i unrhyw ddeddfwriaeth, hysbysu Ysgrifennydd perthnasol y Cynulliad fod y Pwyllgor yn bwriadu gwneud adroddiad o’r fath a rhoi cyfle i Ysgrifennydd perthnasol y Cynulliad ymateb.

**Gweithredu: Clerc.**

3.4 Yn ystod y drafodaeth codwyd yr angen i wahaniaethu rhwng amodau rheoliadau cyfansawdd ar gyfer Cymru a Lloegr sy'n berthnasol i un ai Gymru neu Loegr yn unig. Cytunwyd bod hyn yn fater y dylai'r Cynghorwyr Cyfreithiol ei ystyried yn y tymor hir.

**LC119: Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cadwraeth y Gymuned) (Cymru) 2000**

3.5 Rhoddodd Mr Turnball ei adroddiad i'r pwyllgor. Gwnaed y Gorchymyn dan y weithdrefn frys.

3.6 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i dalu sylw arbennig i'r Gorchymyn ar sail unrhyw un o'r amodau a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Er hynny, fe wnaeth y Pwyllgor rai sylwadau cyffredinol yr oeddynt yn teimlo y dylid eu cofnodi yn eu Hadroddiad.

3.7 Amgaeir adroddiad y Pwyllgor ar y Gorchymyn hwn i'r Cynulliad fel LC119(Adroddiad).

**Eitem 4 – Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

4.1 Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 10 Hydref 2000.

**Papurau Cysylltiedig**

- **LC119**